# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2012.

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr E.G.Davies ; W.I.Hughes; Eric Jones; R.Dylan Jones; Eric Roberts; Hefin W.Thomas; |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid;<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi);<br>Rheolydd Sgriwtini (BS);<br>Swyddog Cyswllt a Chefnogi Sgriwtini (CT);<br>Swyddog Pwyllgor (JMA).<br><br>Y Comisiynydd Mick Giannasi; |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Ieuan Williams; John Penri Williams; |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Nid oedd unrhyw Ddatganiad o Ddiddordeb gan nac Aelod na Swyddog.

**2 COFNODION**

Derbyniwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2012.

**3 ADOLYGU RHESYMOLI PARTNERIAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cynigion oedd wedi'u paratoi i resymoli partneriaethau ym Môn a Gwynedd o dan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

Nododd yr Aelodau y cefndir i'r mater a'r camau oedd wedi'u cymryd ynglŷn â Bwrdd Prosiect Cyngor Sir Ynys Môn/Cyngor Sir Gwynedd oedd wedi gyrru'r prosiect yn ei flaen ac wedi hynny wedi paratoi model arfaethedig, gyda'r prif elfennau wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad i'r Pwyllgor hwn oedd yn cynnwys sefydlu Bwrdd Gwasanaeth lleol ar y Cyd, yn cael ei gefnogi gan Dîm Darparu ar y Cyd. O dan y model arfaethedig, byddai'r partneriaethau cyfredol yn stopio gweithredu.

Er mwyn egluro rôl sgriwtini o safbwynt gweithio mewn partneriaeth, cynigwyd y dylid sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen gyda dau gynrychiolydd o bob Cyngor yn trafod ac yn cytuno ar y model gorau ar gyfer sgriwtini ac yn adrodd yn ôl i'r ddau Gyngor. Byddai cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd yn cael ei gynnal ar 23 Chwefror i drafod y model arfaethedig a'r ffordd ymlaen. Y bwriad oedd cael y model terfynol wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo erbyn Ebrill 2012.

Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau, pwysleisiodd y Swyddog ei bod yn bwysig y byddai'r Model yn addas i'r pwrpas yn lleol ac wedi'i ddatblygu mewn ffordd greadigol, ac wedi'i deilwrio'n benodol i anghenion yr ardal. Roedd y Swyddog yn cydnabod yr her gyda sicrhau gostyngiadau cost a phwysleisiodd bod y broses yn cael ei gyrru gan leihau cost ac er mwyn osgoi dyblygu a bod

Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorau resymoli partneriaethau a chydweithio mwy. Pwysleisiodd yr Aelodau'r angen i sicrhau na fyddai arbenigedd lleol yn cael ei golli.

Cadarnhaodd y Comisiynydd Giannasi bod y Comisiynwyr yn hollol gefnogol i weithio mewn Partneriaeth. Dywedodd nad oedd y ffordd bresennol o weithio yn un gynaliadwy gyda chyfarfodydd a phresenoldeb Aelodau a Swyddogion yn cael ei ddyblygu rhwng awdurdodau. Roedd yn cydnabod bod yna bosibilrwydd o golli ffocws a bod yna hefyd debygrwydd y byddai cyfrifoldebau democrataidd yn cael eu colli ar y lefel leol ond roedd yn credu y byddai proses sgriwtini gadarn yn gwylio rhag hyn. Roedd yn credu fod yna achos i'w wneud o blaid Sgriwtini ar y Cyd a phwysleisiodd yr angen am atebolrwydd lleol. Dywedodd bod yna angen cryf i leihau dyblygu cyfarfodydd, papurau agenda ag ati er mwyn dileu costau o'r gwasanaethau a dim ond trwy gydweithio a chydweithredu y gellid sicrhau hynny.

Roedd y Cynghorydd D.Rees Hughes yn credu bod rhai manylion pwysig wedi cael eu gadael allan o'r adroddiad ac y dylai'r Cyngor fod yn wyliadwrus wrth symud ymlaen. Roedd ganddo bob hyder yn y Swyddogion ond roedd ganddo rai amheuon ynglŷn â'r goblygiadau cost. Roedd yn credu bod yna gryn arbenigedd o fewn y partneriaethau presennol ac roedd yn teimlo bod angen sicrhau na fyddai costau staff yn cael eu gorbwyso gan fwy o ostyngiad o ran deilliannau. Roedd yn credu ei bod yn hollol hanfodol y dylai unrhyw fodel i'r dyfodol fod yn glir a chynaliadwy. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mai model amlinellol yn unig oedd hwn ac y byddai angen mewnbwn pellach ac roedd yn cydnabod bod angen darparu gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â chostau staffio a pherfformiad a threfniadau monitro.

**PENDERFYNODD yr Aelodau:-**

**(i) dderbyn y model arfaethedig mewn egwyddor;**
**(ii) penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel cynrychiolwyr y Cyngor hwn ar y Grŵp Tasg neu Brosiect;**
**(iii) bod y Cynghorydd R.Dylan Jones yn cael ei ethol fel Aelod wrth gefn pe bai'r Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn methu mynychu cyfarfod o'r Grŵp.**

## 4 BLAENRAGLEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Rhoddwyd Blaenraglen y Pwyllgor gerbron a thrafodwyd rhai eitemau i'w cynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf.

Tynnodd y Swyddog Cyswllt a Chefnogi Sgriwtini sylw at y llwyth gwaith mawr oedd wedi'i gynnwys ar y Rhaglen ar gyfer cyfarfod 29 Mawrth a chynigiodd bod yr eitem ar y Ddarpariaeth Iechyd a Diogelwch yn cael ei drosglwyddo i gyfarfod arall. Roedd y Comisiynydd Giannasi yn ystyried ei flaenraglen o safbwynt y risgiau i'r Cyngor ac ychwanegodd nad oedd Iechyd a Diogelwch yn faes risg uchel ar hyn o bryd, wedi i'r maes hwnnw gael asesiad da yn ddiweddar.

Cafwyd adroddiad ar faterion Ariannol gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Cyllid, sef materion y trefnwyd iddynt gael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor hwn. Gwnaeth y Swyddog y sylwadau a ganlyn:-

- Nid oedd Adolygiadau Cyllideb Seiliol yn opsiwn oherwydd materion capasiti a'i barn hi oedd nad dyma'r ffordd ymlaen ond yn hytrach y byddai o fwy o fantais i ddefnyddio'r amser a'r adnodd i wneud asesiad risg ar y meysydd allweddol rheini lle'r oedd y meincnod yn awgrymu y byddai sgriwtini pellach o gymorth.
- Fe ddylai gwaith sgriwtineiddio cyllideb 2013/2014 ddechrau yn gynharach yn y flwyddyn;
- Byddai Blaenoriaethau Corfforaethol Cymunedol fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwella yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar gyfer eu sgriwtineiddio;
- Adroddiadau a gyflwynir i'r Comisiynwyr a'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â chryfhau'r Swyddogaeth Gorfforaethol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor hwn;

- Dylai sgriwtini ffocysu ar risg a'i dargedu - mae meysydd allweddol risg yn ehangach na'r Rhaglen blaenoriaethau Fforddiadwy.

**PENDERFYNWYD nodi'r sylwadau uchod a rhoi'r hawl i'r Swyddog Cyswllt a Chefnogi Sgriwtini gytuno ar Raglen ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda Chadeirydd y Pwyllgor.**

**CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**